

# Y FFORDD ORAU O GADW EICH DANNEDD A CHNAWD EICH DANNEDD YN IACH

yw drwy ymuno â'n **Cynllun Aelodaeth!**

Trowch y ddalen i weld yr holl fanteision arbennig sydd ar gael ichi.

DEINTYDDFA PENLAN DENTAL CARE

6 Stryd Penlan
Pwllheli LL53 5DH

**Ffôn:** 01758 613341

**E-bost:** info@penlandentalcare.co.uk

**www.penlandentalcare.co.uk**

# Mae ein cynllun aelodaeth deintyddol yn eich annog i ddod i'n gweld yn rheolaidd. Bydd hyn yn golygu y gallwn ni sylwi ar broblemau cyn iddyn nhw godi ac felly, gallwn eich helpu chi i gadw'ch dannedd a chnawd eich dannedd yn iach gydol eich oes.

## 5 prif fantais ymuno:

**Llai o risg**
o orfod cael triniaeth adferol ddrud yn y dyfodol drwy ddod i'n gweld yn rheolaidd

**Byddwch yn gymwys**
i ofyn am help dan y Cynllun Byd-eang ar gyfer Cymorth Deintyddol mewn Argyfwng*

**Gostyngiad arbennig o 10%**
ar driniaethau i aelodau yn unig**

**Taenu cost**
eich gofal deintyddol rheolaidd drwy ddebyd uniongyrchol misol hwylus

**Arbed arian i chi**
o'i gymharu â thalu ffioedd preifat bob tro

## Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich aelodaeth?

| | Aelodaeth Flynyddol | Aelodaeth |
|---|---|---|
| Nifer archwiliadau deintyddol y flwyddyn*** | 1 | 2 |
| Nifer apwyntiadau hylendid y flwyddyn*** | 1 | 2 (efo deintydd) |
| Pelydr-X bach wedi'u cynnwys | ✓ | ✓ |
| **Cost fisol****** | **£8.40** | **£14.00** |

## Sut mae'r apwyntiadau hyn yn help i chi?

### Archwiliadau deintyddol:

- Archwiliadau clinigol i sylwi'n fuan ar unrhyw broblem sy'n codi
- Chwilio am unrhyw arwydd o ganser y geg er mwyn ei ganfod yn fuan
- Pelydr-X os bydd angen clinigol er mwyn archwilio iechyd eich ceg yn fanwl.

### Ymweliadau â'r hylenydd:

- Tynnu plâc caled niweidiol mewn ffordd broffesiynol
- Cyngor a thechnegau – byddwn yn cydweithio â chi i atal pydredd dannedd a chlefyd ar gnawd y dannedd
- Anadl mwy ffres a gwên ddisgleriach i chi deimlo'n well amdanoch eich hun.

Credwn fod hyn yn cynnig pecyn cyflawn i gadw'ch ceg yn iach.
Rydym yn argymell ymuno â'r cynllun er mwyn helpu i leihau'r risg o orfod cael triniaeth adferol ddrud yn y dyfodol.

Holwch unrhyw aelod o'r tîm i gael rhagor o wybodaeth neu fanylion am gofrestru.

* Mae dogfennau sy'n berthnasol i'n Hysbysiad Preifatrwydd a'r Cynllun Byd-eang ar gyfer Cymorth Deintyddol mewn Argyfwng, gan gynnwys lefelau'r cymorth, y cyfyngiadau a'r eithriadau ar gael i'w gweld ar-lein yn https://scheme.wdeas.co.uk/patients

** Mae eithriadau'n berthnasol i driniaethau hylendid, orthodonteg, periodonteg ychwanegol, mewnblaniadau a thriniaethau cosmetig.

*** Bydd archwiliadau ac ymweliadau hylendid rheolaidd yn cael eu darparu ar yr amod ein bod wedi derbyn y taliadau misol sy'n daladwy.

*** Bydd tâl gweinyddu cychwynnol sef £9.50 yn cael ei gasglu gyda'ch taliad cyntaf yn unig.

Mae'r prisiau'n gywir adeg argraffu'r daflen hon.